# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 13 Gorffennaf 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 5 Awst 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 13 Awst 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas - Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC**

Trosglwyddo'r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd i Byw'n Iach Cyf yn 2021/22.

**PENDERFYNIAD:**

Fod Cyngor Gwynedd yn cytundebu gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon y Cyngor sy'n cynnwys rhaglen ar gyfer awyr agored a rhaglen chwaraeon anabledd.

Fod Cyngor Gwynedd yn trosglwyddo staff Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon i Gwmni Byw'n iach drwy delerau TUPE

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sioned Eirian Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 13 Gorffennaf 2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Trosglwyddo'r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd i Byw'n Iach Cyf yn 2021/22.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyngor Gwynedd yn cytundebu gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu ein Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon sy'n cynnwys rhaglen ar gyfer awyr agored a rhaglen chwaraeon anabledd.

Cyngor Gwynedd yn trosglwyddo staff Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon i Gwmni Byw'n iach drwy delerau TUPE

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r gwasanaeth Datblygu Chwaraeon wedi bod yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad plant a phobl Ifanc 5-16 oed mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac wedi bod yn gweithio yn bennaf yn ysgolion y Sir, gan gyflwyno cynlluniau megis 5x60, Campau'r Ddraig a Dal i fynd a chreu llu o gyfleoedd cyfranogi boed yn sesiynau, cystadlaethau, gwyliau neu raglen hyfforddiant. Bellach yn dilyn adolygiad a newid mewn strwythur a chyfrifoldebau o fewn y Tîm chwaraeon - mae'r gwasanaeth a ddarperir wedi ei ymestyn i'r gymuned ehangach tu allan i'r ysgolion ac yn targedu trigolion Gwynedd i gyd o 0 i 100! Mae'r newid yn y strwythur/cyfrifoldebau-yn golygu bod y gwasanaeth datblygu chwaraeon bellach yn gallu gwasanaethu:

- Ardaloedd gwledig/cymunedol
- Bod yn fwy targedol yn eu cynlluniau gan gynnwys cynnig gwasanaeth 1:1 i blant Ysgolion uwchradd y Sir sydd ddim yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol na chwaraeon allgyrsiol

- Creu partneriaethau llawer cryfach gyda Chlybiau o fewn y Sir a thrwy hyn hyrwyddo mwy o gyfleoedd cyfranogi i bobl Gwynedd
- Adnabod rhwystrau i bobl gyfranogi a cheisio darganfod ffyrdd i oresgyn y rhwystr hwnnw
- Edrych, darganfod, hyrwyddo grantiau fydd yn cynorthwyo clybiau i wella/ehangu ar y ddarpariaeth maent yn ei gynnig
- Gweithio ar gynlluniau penodol Ffitrwydd – gan dargedu plant gordew
- Bod yn fwy targedol yn eu cynlluniau/rhaglen e.e. merched yn unig, ardaloedd difreintiedig a phlant bregus.
- Gwrando ar lais trigolion Gwynedd ynglŷn â'r hyn y bydden nhw yn hoffi ei wneud a chynllunio rhaglenni yn ymateb i hynny
- Ymateb i Fframwaith Chwaraeon Gogledd Cymru

Bwriad rhain i gyd ydi cynyddu cyfleoedd i bobl Gwynedd gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a drwy wneud hynny gwella eu hiechyd, ffitrwydd a lles boed yn gorfforol neu feddyliol.

Mae'r Gwasanaethau Datblygu Chwaraeon, sydd ers sawl blwyddyn wedi ariannu trwy Chwaraeon Cymru yn enw'r "Tîm Chwaraeon Am Oes" o fewn y Cyngor, ond fydd yn y dyfodol yn cael ei gomisiynu gan gorff newydd "Chwaraeon Gogledd Cymru".

Mae Chwaraeon Gogledd Cymru wedi sefydlu gan bartneriaeth o'r 6 awdurdod lleol yn y rhanbarth yn ogystal â phartneriaid tai cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae'n rhan o weledigaeth Chwaraeon Cymru i ddatganoli'r drefn buddsoddi mewn chwaraeon cymunedol.

Mi oedd bwriad trosglwyddo'r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon i Byw'n Iach Cyf pan sefydlwyd y cwmni cyfyngedig trwy warrant yn Ebrill 2019. Gan fod Byw'n Iach cyf newydd ei sefydlu ac endid Chwaraeon Gogledd Cymru ddim yn ei le eto ni throsglwyddwyd y Gwasanaeth i Byw'n Iach Cyf.

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf mae Byw'n Iach cyf wedi ymsefydlu, datblygu trefniadau gweithredol newydd ac ymgyfarwyddo gyda threfniadau llywodraethu newydd. Mae strwythur newydd bellach yn ei le gan Chwaraeon Gogledd Cymru hefyd a golygai bydd Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon yn cael ei gomisiynu nawr drwy Chwaraeon Gogledd Cymru

Gan fod Byw'n Iach Cyf wedi ymsefydlu a strwythur llywodraethu yn ei le gan Chwaraeon Cymru mae'r amseru yn iawn i drosglwyddo'r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon o Gyngor Gwynedd i Byw'n Iach Cyf.

Un o ofynion Byw'n Iach drwy gydol cyfnod y contract ydi i weithredu atebion arloesol i gyflawni ethos y Cyngor o welliant parhaus ac effeithlonrwydd ariannol. Gall trosglwyddo'r Gwasanaeth i Byw'n Iach gynyddu capiaist i wireddu eu gweledigaeth a darganfod effeithlonrwydd ariannol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Gofynion cyffredinol y contract i Byw'n Iach Cyf ydi i ddarparu:

- *Rhaglen amrywiol o weithgaredd hamdden, chwaraeon a chymunedol sy'n hygyrch i bawb gan gynnwys y grwpiau difreintiedig a bregus*
- *Darparu profiad cwsmer a gofal cwsmer o ansawdd uchel yn gyson.*
- *Sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws sector chwaraeon a gweithgaredd corfforol y Sir*
- *Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfranogiad trefniadaeth gymunedol, clybiau / grwpiau ac Ysgolion yn y gweithgareddau*
- *Adolygu a gwella ystod a chwmpas y cynnig yn barhaus, gan fod yn gyson ymwybodol o anghenion cwsmeriaid, cynyddu nifer yr ymwelwyr a boddhad cwsmeriaid, yn enwedig ymhlith y rhai anoddaf eu cyrraedd.*
- *Cynnal lefelau uchel o lendid ledled yr eiddo.*
- *Marchnata a hyrwyddo'r Gwasanaeth, yr Adeilad a'r gweithgareddau mewn modd hygyrch, deniadol a phroffesiynol sydd hefyd yn targedu'r rhai lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad a nifer y defnyddwyr*
- *Annog mwy o drigolion yng Ngwynedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn enwedig y preswylwyr hynny sy'n profi mwy o angen iechyd.*
- *Yn ddarostyngedig i delerau'r prydlesau, cynnal ansawdd yr eiddo.*
- *Gweithio i wella effeithlonrwydd darparu gwasanaeth yn barhaus, lleihau cost y gwasanaeth i'r Cyngor a'i anelu at leihau'r swm contract cyfredol.*
- *Chwilio am gyfleoedd i gael cyllid grant i gefnogi datblygiad y busnes a gwella'r gwasanaethau yn barhaus.*
- *Darparu staff cymwysedig addasrwydd sy'n ddigonol i gydymffurfio â phob agwedd o'r contract bob amser.*

Gall trosglwyddo'r Gwasanaeth i Byw'n Iach eu cynorthwyo i gyflawni gofynion cyffredinol y contract. Mae trafodaethau wedi cymryd lle gyda Byw'n Iach Cyf dros y ddwy flynedd diwethaf ynglŷn â throsglwyddo'r gwasanaeth ac mae trafodaethau gyda'r cwmni ei hun wedi amlygu manteision all trosglwyddo'r Gwasanaeth ei roi iddynt er mwyn cyrraedd gofynion y contract. Mi fydd angen i Fwrdd y Cwmni ymrwymo'n ffurfiol i'r cynnig yn sgil penderfyniad gan y Cyngor.

O fewn y contract rhwng Cyngor Gwynedd a Byw'n Iach mae cymal 3.1 yn Atodlen 3 a'r canllaw yn Atodlen 4 yn galluogi'r Cyngor i ofyn i'r cwmni ddarparu rhaglenni drwy grantiau ar ein rhan:

*3.10 O bryd i'w gilydd, gallai'r Cyngor gytuno gyda'r Contractwr y bydd yn gweithredu ar ei ran wrth ddarparu cynlluniau pellach a ariennir gan grantiau a dderbynia'r Cyngor drwy Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru neu gyrff ariannu eraill a bydd unrhyw gytundeb o'r fath yn darparu ar gyfer y materion a amlinellir yn Rhan 3 Atodlen 14.*

Mae trefniadau tebyg eisoes yn ei le rhwng Cyngor Gwynedd a Byw'n Iach iddynt ddarparu prosiectau grantiau eraill megis NERS, Nofio am ddim a rhaglen 60+ ar

ran y Cyngor. Mi fyddai trosglwyddo’r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon yn ychwanegiad i’r hyn mae’r cwmni yn ei wneud ar ran y Cyngor yn barod.

Drwy drosglwyddo’r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon i Byw’n Iach fe fyddai angen gwneud addasiad i’r contract. Mi fyddai cyllideb o £390,400 (Grant o £334,760 & Cyfraniad o £55,640 gan Gyngor Gwynedd) yn trosglwyddo fel ychwanegiad i’r “Swm Cytundeb” blynyddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Mae’r gyllideb yn bennaf yn ariannu costau staff, gyda elfen bychain o gostau eraill e.e. rhent.

Drwy dderbyn cyfrifoldeb am y grant fe fyddai Byw’n Iach Cyf yn derbyn cyfrifoldeb am gyflogaeth 9 aelod o staff Cyngor Gwynedd o dan amodau TUPE. Mae swyddi'r gwasanaeth wedi nodi isod:

| Teitl Swydd | Graddfa Cyflog |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglenni Chwaraeon | S4 |
| 6x Swyddog Chwaraeon am Oes | S1 |
| Swyddog Datblygu Chwaraeon anableddau* | S3 |
| Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored** | S3 |

*Anableddau – Grant £19,236 & Cyngor yn cyfrannu £19,236

** Awyr Agored – Grant £16,000 & Cyngor yn cyfrannu £22,472

Pe byddai grant ar gyfer ariannu swydd Swyddog Datblygu Chwaraeon anableddau a Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored yn dod i ben, fe fyddai drafodaeth bellach gyda chwmni Byw’n Iach o ran y cyfraniad Cyngor Gwynedd ar gyfer y swyddi a gall hynny arwain at y cyfraniad yn dod i ben.

Model cyllidol sy’n cael ei gadarnhau yn flynyddol gan Chwaraeon Gogledd Cymru ydi’r Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon. Pe byddai Byw’n Iach Cyf yn derbyn y grant ar gyfer 2021/22 byddai angen i Byw’n Iach Cyf ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd greu cynllun busnes blynyddol a’i gyflwyno i’r grŵp llywodraethu Chwaraeon Gogledd Cymru er mwyn derbyn grantiau pellach i gynnal y gwasanaeth i’r dyfodol.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid –

Cadarnhaf y ffigyrau ariannol sydd ar y Daflen Penderfyniad yma, a cytunaf byddai'n synhwyrol i drosglwyddo'r gwasanaeth Datblygu Chwaraeon i gwmni Byw'n Iach Cyf.

Swyddog Monitro –

Gallaf gadarnhau fod darpariaeth yn y gytundeb gyda Cwmni Byw'n Iach Cyf sydd yn caniatáu comisiynu'r cwmni i weithredu cynlluniau grant cyfredol neu newydd. Mae'r amodau ar gyfer gweithredu y trosglwyddiad yma yn cael eu sefydlu gan ddarpariaethau'r gytundeb yn ddarostyngedig i ffurfioli manylion cytundebol .